



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU

Profi, Olrhain, Diogelu (olrhain cysylltiadau ar gyfer coronafeirws (COVID-19)): hyd at 27 Mawrth 2021

Diweddariad gwybodaeth reoli ar olrhain cysylltiadau a ddarparwyd fel rhan o'r strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru, hyd at 27 Mawrth 2021.

Cyhoeddwyd gyntaf: 1 Ebrill 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 1 Ebrill 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-27-mawrth-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

[Beth yw olrhain cysylltiadau?](#)

[Prif ganlyniadau](#)

[Yr amser a gymerir i gyrraedd achosion positif a chysylltiadau agos](#)

[Data ar gyfer 1 i 21 Mehefin 2020](#)

[Gwybodaeth ansawdd a methodoleg](#)

[Manylion cyswllt](#)

Beth yw olrhain cysylltiadau?

Mae olrhain cysylltiadau yn rhan bwysig o [strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu](#) y Llywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth yn cael ei gweithredu drwy wasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru.

Cyn gynted ag y bydd pobl yn dechrau dangos symptomau o coronafeirws (COVID-19), dylent drefnu prawf mor gyflym â phosibl wrth iddyn nhw, a'r bobl sy'n byw yn yr un tŷ â nhw, hunanynysu. Ar ôl cael canlyniad positif, gofynnir i bobl gefnogi gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru drwy roi gwybod i'r swyddog olrhain cysylltiadau lleol am eu cysylltiadau diweddar fel y gellir cysylltu â nhw a gofyn iddynt hunanynysu (a chymryd prawf os ydynt hefyd yn dangos symptomau), er mwyn helpu i atal lledaeniad y feirws.

Efallai na fydd yn bosibl olrhain pob unigolyn sy'n cael ei gyfeirio at y gwasanaeth olrhain cysylltiadau. Am amryw o resymau, ni fydd manylion cysylltu wedi'u darparu ar gyfer rhai unigolion ac mae'n bosibl nad yw eraill wedi ymateb i alwadau, negeseuon testun neu e-byst gan dimau olrhain. Mae cyfran yr

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-27-mawrth-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

achosion positif a oedd yn gymwys am gysylltiad dilynol, ac y cysylltwyd â nhw, yn cynnwys yr achosion y cysylltwyd â nhw'n llwyddiannus yn unig. Nid yw'n cynnwys achosion lle ceisiodd y swyddogion olrhain cysylltiadau i gysylltu â nhw, ond heb lwyddiant.

Ar gyfer achosion mewn neuaddau preswyl, mae'n bosibl derbyniwyd myfyrwyr tecst neu gysylltiad gan eu prifysgol i'w chynghori i ynysu, ac nid gan y tîm olrhain cysylltiadau lleol. Nid yw'r math yma o weithgaredd wedi'i gynnwys yn y data olrhain cysylltiadau.

Mae'r data yn y datganiad yma yn wybodaeth reoli sy'n cael eu casglu fel rhan o'r broses olrhain cysylltiadau. Nid yw'r data wedi'u casglu at ddibenion ystadegau swyddogol, ac felly nid oes gan y data yr un lefel o sicrwydd ansawdd ag ystadegau swyddogol a bydd yn destun i ddiwygiadau yn y dyfodol. Rydym yn cyhoeddi hyn i ddarparu crynodeb wythnosol o weithgarwch olrhain cysylltiadau yng Nghymru yn ystod y pandemig coronafeirws (COVID-19).

Ar gyfer yr wythnos ddiweddaraf (21 i 27 Mawrth) bu cynnydd mawr yn nifer y cysylltiadau a oedd yn gymwys i gael eu holrhain ym mwrdd iechyd prifysgol Bae Abertawe, ac mae hynny i'w weld yn y tablau a gyhoeddir ochr yn ochr â'r datganiad hwn. Credwn fod y cynnydd hwn wedi cael effaith fach ar y ffigurau cenedlaethol a gyflwynir yn y datganiad hwn o ran canran y cysylltiadau a gyrhaeddwyd, ond effaith fwy ar yr amser a gymerwyd i gyrraedd cysylltiadau agos. Rydym yn gweithio'n agos gyda thimau olrhain cysylltiadau lleol a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) i ddeall y cynnydd hwn ymhellach.

Prif ganlyniadau

Yn ystod yr wythnos ddiwethaf (21 i 27 Mawrth 2021):

- o blith y 1,183 o achosion positif a oedd yn gymwys i'w holrhain, cyrhaeddwyd 1,167 (99%) a gofyn iddynt ddarparu manylion y bobl y maent wedi dod i gysylltiad â nhw yn ddiweddar
- o blith y 4,323 o gysylltiadau agos a oedd yn gymwys i'w holrhain, cysylltwyd a chynghorwyd â 4,154 (96%) yn llwyddiannus, neu chafwyd eu hachos ei ddatrys yn syth

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-27-mawrth-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Yn gyfan gwbl, ers 21 Mehefin 2020:

- o blith y 172,982 o achosion positif a oedd yn gymwys i'w holrhain, cyrhaeddwyd 172,362 (99.6%) a gofyn iddynt ddarparu manylion y bobl y maent wedi dod i gysylltiad â nhw yn ddiweddar
- o blith y 396,332 o gysylltiadau agos a oedd yn gymwys i'w holrhain, cysylltwyd a chynghorwyd â 374,233 (94%) yn llwyddiannus, neu chafwyd eu hachos ei ddatrys yn syth

Tabl 1: Achosion positif a atgyfeiriwyd at y system olrhain cysylltiadau, hyd at 27 Mawrth 2021

	Wythnos ddiweddaraf 21 i 27 Mawrth 2021	Cyfanswm cronus 21 Mehefin 2020 i 27 Mawrth 2021
Achosion cymwys i'w holrhain gan dimau olrhain cysylltiadau lleol	1,183	172,982
Achosion anghymwys i'w holrhain gan dimau olrhain cysylltiadau lleol	269	31,951
Cyfanswm	1,452	204,933

Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru


Darperir gwybodaeth am y math o achosion nad ydynt yn gymwys ar gyfer camau dilynol gan dimau olrhain cysylltiadau lleol yn yr [adran am ansawdd a methodoleg](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-27-mawrth-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Siart 1: Achosion positif cymwys i'w holrhain gan dimau olrhain cysylltiadau lleol, hyd at 27 Mawrth 2021



Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Achosion positif cymwys i'w holrhain gan dimau olrhain cysylltiadau lleol, hyd at 27 Mawrth 2021 (MS Excel)

Tabl 2: Pobl a gadarnhawyd yn gysylltiadau agos, hyd at 27 Mawrth 2021

	Wythnos ddiweddaraf 21 i 27 Mawrth 2021	Cyfanswm cronus 21 Mehefin 2020 i 27 Mawrth 2021
Achosion cymwys i'w holrhain gan dimau olrhain cysylltiadau lleol	4,323	396,332
Achosion anghymwys i'w	373	13,099

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-27-mawrth-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Wythnos ddiweddaraf 21 i 27 Mawrth 2021	Cyfanswm cronus 21 Mehefin 2020 i 27 Mawrth 2021
--	---

holrhain gan dimau olrhain cysylltiadau lleol

Cyfanswm	4,696	409,431
-----------------	-------	---------

Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru


Mae'r ffigurau hyn yn ymwneud â'r holl gysylltiadau agos a nodwyd yn y cyfnod adrodd dan sylw. Mae'n bosibl y bydd rhai wedi'u nodi drwy achosion positif a atgyfeiriwyd at y system olrhain cysylltiadau cyn y cyfnod adrodd. Gall y ffigurau hefyd gynnwys rhai cysylltiadau agos sy'n gymwys i'w holrhain gan dimau olrhain cysylltiadau lleol a nodwyd gan achosion cadarnhaol a gafodd eu trosglwyddo i dimau rhanbarthol i'w rheoli ymlaen.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-27-mawrth-2021-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Siart 2: Cysylltiadau agos cymwys i'w holrhain gan dimau olrhain cysylltiadau lleol, hyd at 27 Mawrth 2021



Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru


Cysylltiadau agos cymwys i'w holrhain gan dimau olrhain cysylltiadau lleol, hyd at 27 Mawrth 2021 (MS Excel)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-27-mawrth-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Siart 3: Achosion positif dyddiol sy'n gymwys i gael cyswllt dilynol gan dimau olrhain cysylltiadau lleol, hyd at 27 Mawrth 2021



Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru


Achosion positif dyddiol sy'n gymwys i gael cyswllt dilynol gan dimau olrhain cysylltiadau lleol, hyd 27 Mawrth 2021 (MS Excel)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-27-mawrth-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Siart 4: Cysylltiadau agos dyddiol sy'n gymwys i gael cyswllt dilynol gan dimau olrhain cysylltiadau lleol, hyd at 27 Mawrth 2021



Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Cysylltiadau agos dyddiol sy'n gymwys i gael cyswllt dilynol gan dimau olrhain cysylltiadau lleol, hyd 27 Mawrth 2021 (MS Excel)

Mae Siartiau 3 a 4 yn cynrychioli'r nifer ddyddiol o achosion positif a'r cysylltiadau agos sy'n gymwys i gael cyswllt dilynol. Gall nifer yr achosion sy'n gymwys am gyswllt dilynol ar gyfer yr wythnosau diwethaf fod ychydig yn wahanol i'r cyhoeddiadau blaenorol oherwydd bod achosion wedi'u nodi fel rhai anghymwys yn dilyn ymchwiliad pellach gan dimau olrhain cysylltiadau. Gallwch weld rhagor o fanylion am y broses hon yn yr [adran wybodaeth am ansawdd a methodoleg](#).

Mae amrywiad rhwng diwrnodau yn adlewyrchu gwahaniaeth yn y galw ar y system (e.e. nifer y profion a gyflawnwyd) gyda rhai dyddiau yn gweld mwy o achosion yn bwydo drwodd i gysylltu â thimau olrhain. Gall brig mewn achosion positif neu gysylltiadau agos ddigwydd o ganlyniad i: ôl-groniad o achosion o

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-27-mawrth-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ddyddiau blaenorol, swp mawr o ganlyniadau profion yn cael eu cyflwyno, safle profi newydd yn agor neu fwy o gapasiti profi ar gael.

Yr amser a gymerir i gyrraedd achosion positif a chysylltiadau agos

Yn ystod yr wythnos ddiwethaf (21 i 27 Mawrth 2021)

Achosion positif

- O'r 1,183 o achosion positif a oedd yn gymwys ar gyfer camau dilynol, cyrhaeddwyd 94% ohonynt o fewn 24 awr o gael eu hatgyfeirio i'r system olrhain cysylltiadau. Mae hyn gyfystyr â 95% o'r rheini y llwyddwyd i'w cyrraedd yn cael eu cyrraedd o fewn 24 awr.
- Cyrhaeddwyd 97% o achosion positif a oedd yn gymwys ar gyfer camau dilynol o fewn 48 awr. Mae hyn gyfystyr â 99% o'r rheini y llwyddwyd i'w cyrraedd yn cael eu cyrraedd o fewn 48 awr.

Cysylltiadau agos

- O'r 4,323 o gysylltiadau agos a oedd yn gymwys ar gyfer camau dilynol, cyrhaeddwyd 88% ohonynt o fewn 24 awr o gael eu nodi gan achos positif. Mae hyn gyfystyr â 92% o'r rheini y llwyddwyd i'w cyrraedd yn cael eu cyrraedd o fewn 24 awr.
- Cyrhaeddwyd 92% o gysylltiadau agos a oedd yn gymwys ar gyfer camau dilynol o fewn 48 awr o gael eu nodi gan achos positif. Mae hyn gyfystyr â 96% o'r rheini y llwyddwyd i'w cyrraedd yn cael eu cyrraedd o fewn 48 awr.
- O'r amser y cyfeiriwyd achosion positif i'r system olrhain cysylltiadau, cysylltwyd â 54% o'r holl gysylltiadau agos a oedd yn gymwys am gysylltiad dilynol o fewn 24 awr. Mae hyn yn golygu y cysylltwyd â 56% o'r rhai y cysylltwyd â nhw'n llwyddiannus o fewn 24 awr.
- O'r amser y cyfeiriwyd achosion positif i'r system olrhain cysylltiadau, cysylltwyd â 79% o'r holl gysylltiadau agos a oedd yn gymwys am gysylltiad

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-27-mawrth-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

dilynol o fewn 48 awr. Mae hyn yn golygu y cysylltwyd â 82% o'r rhai y cysylltwyd â nhw'n llwyddiannus o fewn 48 awr.

Data ar gyfer 1 i 21 Mehefin 2020

Roedd yr adroddiadau cynnar, ar gyfer tair wythnos gyntaf olrhain cysylltiadau yng Nghymru, wedi'u seilio ar ddata gan dimau olrhain cysylltiadau lleol a rhanbarthol cyn cyflwyno'r system ddigidol genedlaethol.

Yng Nghymru, yn ystod y cyfnod rhwng 1 a 21 Mehefin 2020, cyfeiriwyd 1,905 o achosion positif at dimau olrhain cysylltiadau lleol a rhanbarthol. Arweiniodd hyn at adnabod 2,616 o gysylltiadau i'w holrhain. Cysylltwyd â 2,117 o'r rhain yn llwyddiannus a'u cynghori.

Bydd rhywfaint o orgyffwrdd yn y ffigurau a nodir o'r system ddigidol genedlaethol a'r adroddiadau cynnar a ddarparwyd gan dimau olrhain cysylltiadau lleol a rhanbarthol. O ganlyniad, ni fyddem yn argymhell cyfuno ffigurau o'r ddwy ffrwd adrodd wahanol. Yn y datganiad cyfredol ac mewn fersiynau o'r datganiad hwn yn y dyfodol, bydd y dull adrodd cronol yn canolbwyntio ar ddata o 21 Mehefin 2020 ymlaen.

Gwybodaeth ansawdd a methodoleg

Ffynhonnell data

Gwybodaeth rheoli yw'r data hyn a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru gan GIG Cymru Gwasanaeth Gwybodeg. Rydym yn cyhoeddi hyn er mwyn rhoi crynodeb wythnosol o weithgarwch olrhain cysylltiadau yng Nghymru yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19). Nid yw'r data hyn wedi mynd drwy'r un lefel o sicrhau ansawdd ag ystadegau swyddogol a gellid diwygio'r data yn y dyfodol.

Cafodd y data yn y datganiad hwn eu tynnu o'r system olrhain cysylltiadau am 11:30 ar 30 Mawrth 2021. Tynnwyd y data hyn 3 diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod adrodd er mwyn cynnwys gweithgarwch olrhain a oedd yn ymwneud ag

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-27-mawrth-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

achosion a atgyfeiriwyd tua diwedd y cyfnod adrodd.

Achosion positif a chysylltiadau agos nad ydynt yn gymwys i gael camau dilynol

Mae'r mwyafrif o achosion anghymwys i'w holrhain gan swyddogion olrhain cysylltiadau lleol yn digwydd mewn lleoliadau caeedig megis ysbytai, cartrefi gofal a charchardai. Caiff yr achosion hyn eu huwchgyfeirio at dimau rhanbarthol i'w rheoli ymhellach.

Nid yw achosion positif a chysylltiadau agos nad ydynt yn preswyllo yng Nghymru yn gymwys i gael camau dilynol gan dimau olrhain cysylltiadau lleol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn atgyfeirio'r achosion hynny i'r asiantaeth iechyd y cyhoedd perthnasol er mwyn iddynt gael eu holrhain ymhellach. Byddai'r achosion hyn wedi cael eu cynnwys yn y niferoedd sy'n gymwys i gael camau dilynol yn y datganiadau ystadegol cyn 10 Medi 2020.

Yr amser a gymerir i gyrraedd achosion positif a chysylltiadau agos

Yn dilyn adnabod mater ansawdd data yn ymwneud â'r broses o uwchlwytho cysylltiadau 'swigen' ysgol i'r system olrhain cysylltiadau, gwnaethom eithrio'r holl ddata ysgolion o'r mesurau amseroldeb yn y datganiad a gyhoeddwyd ddydd Iau 18 Mawrth. Roedd hyn oherwydd bod y mater yn effeithio ar fesurau ar gyfer yr amser a gymerwyd i gysylltu â chysylltiadau agos gan arwain at ffigurau yr ystyriwn sy'n gamarweiniol. Roedd y dull hwn hefyd yn dileu nifer fach o gysylltiadau ysgolion a fyddai'n gymwys am gysylltiad dilynol ar gyfer y mesurau amseroldeb.

Yn dilyn gwiriadau ansawdd data pellach a thrafodaethau gyda thimau olrhain cysylltiadau lleol, mae'r data "swigen" ysgol wedi'u heithrio o'r ystadegau 'cysylltiadau agos' a gyflwynwyd ers rhyddhau 25 Mawrth 2021 ac mae data hanesyddol wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r newid. Rydym wedi gwneud y newid hwn i sicrhau tryloywder ac i sicrhau ei fod yn adlewyrchu yn well berfformiad y system olrhain cysylltiadau yng Nghymru.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-27-mawrth-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Nid yw cysylltiadau “swigen” ysgol yn dilyn yr un broses olrhain cysylltiadau gan y bydd eu hysgol yn cysylltu â nhw yn uniongyrchol ac yn rhoi'r canllawiau iechyd y cyhoedd a hunanynysu angenrheidiol iddynt. Oherwydd hyn, rydym wedi eithrio'r cysylltiadau hyn o'r ystadegau 'cysylltiadau agos' yn y datganiad hwn. Mae'n debygol y bydd gan achosion positif gysylltiadau agos ychwanegol o'r ysgol a fydd yn cael eu cyfathrebu i dimau olrhain cysylltiadau lleol a bydd y rhain yn gymwys am gysylltiad dilynol. Mae'r cysylltiadau hyn yn rhan o'r ystadegau yn y datganiad hwn.

Mae'r data yn y datganiad hwn yn debyg yn fras i gyhoeddiadau cyn cyhoeddiad 25 Mawrth 2021, er ein bod yn cynghori na ddylid cymharu'r data yn uniongyrchol â'r wythnosau a oedd yn cychwyn ar 31 Ionawr a 7 Chwefror 2021 lle mae'r cwestiynau ynghylch data “swigod” ysgolion wedi cael yr effaith fwyaf, nac â data yr wythnos a oedd yn cychwyn ar 7 Mawrth 2021 lle tynnwyd yr holl ddata am gysylltiadau ysgolion tra bo'r ymchwiliad i ansawdd y data yn mynd rhagddo.

Amlinellir gwybodaeth ac arweiniad ar sut y gall ysgolion a lleoliadau barhau i wneud eu safleoedd mor ddiogel â phosibl ar gyfer staff a dysgwyr, gan gynnwys "swigod" ysgolion, mewn 'canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau' **Canllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau.**

Ar gyfer achosion positif, mae'r amser a gymerir i'w cyrraedd yn mesur yr amser rhwng atgyfeirio'r achos i'r system olrhain cysylltiadau, a phan y llwyddir i gysylltu â hwy. Ar gyfer cysylltiadau agos, roedd dau fesurydd. Mae'r cyntaf yn edrych ar yr amser rhwng pan caiff y cysylltiad agos ei nodi gan achos positif, a phan y llwyddir i gysylltu ag ef. Mae'r ail fesurydd yn edrych ar y gwahaniaeth rhwng pan y cafodd yr achos positif a nododd y cyswllt ei atgyfeirio i'r system olrhain cysylltiadau, a phan y llwyddwyd i gysylltu â'r cyswllt agos.

Mae'r mesur olaf yn eithrio nifer fach o gysylltiadau agos ni ellid eu cysylltu'n ôl â'r achos cadarnhaol a'u nododd.

Caiff y dyddiad a'r amser pan lwyddwyd i gysylltu ag achos positif neu gyswllt agos eu hystyried fel y cyntaf o nifer o ddigwyddiadau a gofnodir yn y system. Mae'r rhain yn cynnwys:

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-27-mawrth-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- pan ceir cofnod o alwad ffôn lwyddiannus (gan gynnwys galwad ffôn gychwynnol gan swyddogion olrhain cysylltiadau i wahodd achosion a chysylltiadau i lenwi'r e-ffurflen)
- pan cynhelir cyfweliad gyda'r cyswllt
- pan ceir y gwiriad dyddiol cyntaf
- pan fydd cysylltiadau agos neu gysylltiadau eraill yn dod yn rhan o'r system olrhain cysylltiadau (ar gyfer achosion positif yn unig)
- pan nodir bod yr achos 'wedi'i ddatrys'

Dewiswyd y digwyddiadau hyn oherwydd eu bod oll yn dangos bod aelod o'r tîm olrhain cysylltiadau wedi cysylltu'n llwyddiannus â'r unigolyn. Mae'r ystod o ddigwyddiadau yn angenrheidiol oherwydd na cheir cofnod o alwadau ffôn ar gyfer pob achos positif a chysylltiad agos. Gallai hyn godi, er enghraifft, lle mae amryw o achosion ymhlith unigolion sy'n byw ar yr un aelwyd a lle caiff yr wybodaeth ei chofnodi drwy un alwad ffôn yn unig, yn hytrach na galwad ffôn yr un ar gyfer pob unigolyn.

Rhagor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg

Mae achosion cysylltiadau agos a gafodd eu datrys ryw ffordd arall yn cynnwys nifer bach o achosion pan gafodd yr un cysylltiad ei nodi gan fwy nag un achos positif ar yr un pryd. Bryd hynny, bydd timau olrhain cysylltiadau yn gweithio o un cofnod ar gyfer y cyswllt hwnnw ac yn nodi ar y cofnodion ychwanegol fod yr achos wedi'i ddatrys.

Mae nifer yr achosion a gyfeiriwyd ar gyfer olrhain cysylltiadau yn wahanol i nifer yr achosion newydd a gyhoeddir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ni ellir cymharu'r ffynonellau data yma gyda'i gilydd yn uniongyrchol oherwydd gwahaniaethau o ran amseru a lefel y dilysu a wneir, gan fod angen i achosion a gyflwynir i'r system olrhain cysylltiadau gael eu trin â llaw gan dimau olrhain cysylltiadau.

Ar gyfer yr wythnos ddiweddaraf (21 i 27 Mawrth 2021) bu cynnydd mawr yn nifer y cysylltiadau a oedd yn gymwys i gael eu holrhain ym mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ac mae hynny i'w weld yn y tablau a gyhoeddir ochr yn ochr â'r datganiad hwn. Credwn fod y cynnydd hwn wedi cael effaith fach ar y

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-27-mawrth-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

ffigurau cenedlaethol a gyflwynir yn y datganiad hwn o ran canran y cysylltiadau a gyrhaeddwyd, ond effaith fwy ar yr amser a gymerwyd i gyrraedd cysylltiadau agos. Rydym yn gweithio'n agos gyda thimau olrhain cysylltiadau lleol a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) i ddeall y cynnydd hwn ymhellach.

O rifyn 4 Mawrth 2021 ymlaen, ni chaiff y data ar gyfer teithwyr sy'n cyrraedd o'r tu allan i Ardal Deithio Gyffredin y DU bellach eu cynnwys yn y ffigurau a gyflwynir yn y datganiad hwn, ac maent wedi cael eu tynnu o ddata hanesyddol. O'i gymharu â'r data fel y'i cyhoeddwyd ar 25 Chwefror 2021, mae hyn wedi arwain at ostyngiad bach yn nifer yr achosion cyfeirio a'r cysylltiadau agos yn y data a gyhoeddwyd ar 4 Mawrth 2021 gan fod y teithwyr rhyngwladol hyn yn cynrychioli llai na 3% o'r achosion wythnosol. Mae'r dinasyddion hyn yn ynysu oherwydd eu bod wedi teithio, ac er mwyn osgoi lledaenu unrhyw amrywiolion sy'n peri pryder o bosibl. Felly rhaid iddynt ddilyn **proses cwaratîn** a reolir wahanol. Os bydd teithiwr sy'n cyrraedd o leoliad rhyngwladol wedyn yn cael canlyniad positif i brawf, bydd wedyn yn dod yn achos cyfeirio, ac felly'n destun proses olrhain cysylltiadau lawn, a bydd yn rhan o'r ystadegau a gyflwynir.

Ar 17 Rhagfyr, cyflwynodd gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru system newydd i roi'r cyfle i bobl ddarparu manylion eu cysylltiadau agos drwy e-ffurflen newydd. Bydd pobl yn cael galwad ffôn gychwynnol gan swyddogion olrhain cysylltiadau i'w gwahodd i lenwi'r e-ffurflen ac mae'r alwad hon yn cael ei diffinio fel cysylltiad llwyddiannus. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y data a ddangosir yn y datganiad hwn a bydd yn cael effaith ar ganran cyffredinol yr achosion positif a'r cysylltiadau y daethpwyd i gysylltiad â nhw yn llwyddiannus, a chanran yr achosion positif a chysylltiadau y cysylltwyd â nhw o fewn 24 a 48 awr.

Oherwydd y gostyngiad mewn achosion positif yng Nghymru ac felly llai o achosion a chysylltiadau i'w holrhain, mae'r rhan fwyaf o dimau olrhain cysylltiadau lleol yn blaenoriaethu galwadau ffôn dros ddefnyddio'r e-ffurflen. Golyga hyn y bydd e-ffurflenni yn cyfrif am niferoedd bach iawn yn y data a gyflwynir yn y cyhoeddiad hwn. Rydym yn parhau i weithio gyda chydweithwyr i fonitro'r defnydd o'r e-ffurflen yn y system olrhain cysylltiadau.

Mae'r data ar gyfer olrhain cysylltiadau drwy Ap COVID-19 y GIG yn cael eu cyhoeddi gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac mae'n cynnwys data ar

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-27-mawrth-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ddefnyddwyr sydd wedi defnyddio'r gwiriwr symptomau, canlyniadau profion a dderbyniwyd, defnyddwyr y dywedwyd wrthynt i hunanynysu a digwyddiadau ailgydio sydd wedi digwydd. Mae'r data cyhoeddedig diweddaraf a rhagor o wybodaeth i'w cael yn: [Pa ddata sydd ar gael am y ffordd y mae ap COVID-19 y GIG yn cael ei ddefnyddio?](#)

Statws Ystadegau Gwladol

Nid yw'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol. Ond cyn belled ag sy'n ymarferol, maent wedi'u casglu a'u dilysu yn unol â'r pileri a'r egwyddorion yn y [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#). Rydym yn parhau i ddatblygu'r data a gasglwyd a'r broses sicrwydd ansawdd i wella'r data.

Cynhyrchwyd yr ystadegau hyn yn gyflym mewn ymateb i ddatblygiadau ar draws y byd.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Diben Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Diben y nodau yw creu Cymru sy'n fwy cyfartal, lewyrchus, cydnerth, iachach a chyfrifol yn fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus, a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ('dangosyddion cenedlaethol') y mae'n rhaid eu defnyddio at ddiben mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth ar y dangosyddion, ynghyd â disgrifiad o bob un o'r nodau llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Gwybodaeth bellach ar [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-27-mawrth-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Gallai'r ystadegau yn y datganiad hwn hefyd gyfrannu at y dangosyddion cenedlaethol a gellir eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer llunio asesiadau llesiant lleol a chynlluniau llesiant lleol.

Diweddariad nesaf

Datganiad ystadegol wythnosol yw hwn ar hyn o bryd. Bydd yn cael ei gyhoeddi am 09:30 am bob dydd lau. Byddwn yn adolygu hyn yn unol ag anghenion newidiol y defnyddwyr.

Bydd y datganiad nesaf yn cael ei gyhoeddi ddydd lau 8 Ebrill 2021.

Rydym eisiau eich adborth

Rydym yn croesawu adborth ar unrhyw agwedd o'r ystadegau hyn. Gallwch anfon adborth dros e-bost i kas.covid19@llyw.cymru.

Gwybodaeth bellach

I gael gwybodaeth a chynghor ar olrhain cysylltiadau, ewch i'n tudalennau canllawiau [Profi, olrhain, diogelu: coronafeirws](#).

Manylion cyswllt

Ystadegydd: Alex Fitzpatrick
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 5050
E-bost: kas.covid19@llyw.cymru

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 97/2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-27-mawrth-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-27-mawrth-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Profi, Olrhain, Diogelu \(olrhain cysylltiadau ar gyfer coronafeirws \(COVID-19\)\)](#): hyd at 27 Mawrth 2021 a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-27-mawrth-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-27-mawrth-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).